# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 15 Mehefin 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 6(v4)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.1 i sefydlu Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dros dro

(5 munud)

**NDM6023 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.1:

Yn sefydlu Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dros dro i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol, deddfwriaethol neu lywodraethol arall sydd o fewn

cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

## 4 Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgor

(5 munud)

**NDM6028** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

(i) Huw Irranca-Davies (Llafur Cymru), Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru), David Melding (Ceidwadwyr Cymreig) a Michelle Brown (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig) yn aelodau o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dros dro; a

(ii) David Melding (Ceidwadwyr Cymreig) yn Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dros dro.

## 5 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

**NDM6020**

Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)
Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y byddai Cymru'n gryfach, yn ddiogelach ac yn fwy llewyrchus pe byddai'n parhau'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd.

Cefnogir gan:

David Melding (Canol De Cymru) **R**

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM6021 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi llwyddiannau enfawr tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru wrth gymryd rhan ym mhencampwriaeth Euro 2016 yn Ffrainc ar hyn o bryd.

2. Yn cydnabod y rôl y gallai rhan Cymru yn y bencampwriaeth ei chwarae o ran hybu cyfranogiad mewn chwaraeon, gwella lefelau iechyd y cyhoedd a chreu etifeddiaeth barhaus ar gyfer ein hathletwyr elitaidd.

3. Yn mynegi pryder at ganfyddiadau Arolwg Iechyd diweddar Llywodraeth Cymru, a oedd yn pwysleisio maint yr heriau o ran iechyd y cyhoedd sy'n wynebu Cymru ac a ganfu bod 24 y cant o oedolion yn cael eu hystyried yn ordew a bod 59 y cant o oedolion yn cael eu hystyried i fod dros eu pwysau neu'n ordew.

4. Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda chyrff llywodraethu a phartneriaid allweddol i ddefnyddio digwyddiadau fel y ffaith bod Cymru wedi cyrraedd y rowndiau terfynol, ac wedi cymryd rhan yng nghystadleuaeth Euro 2016, i wella iechyd y cyhoedd ac ysgogi mwy o gyfranogid mewn gweithgarwch corfforol.

**Cyflwynwyd y Gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnwys fel pwynt 4 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at doriadau i chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghymru.

## 7 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6022** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cyhoeddi Bil Cymru;

2. Yn gresynu bod datganoli plismona wedi'i hepgor;

3. Yn gresynu at fethu â sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol benodol neu ar wahân; ac

4. Yn gresynu at y cyfle a gollwyd i ddatganoli gweinyddu cyfiawnder.

**Cyflwynwyd y Gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r Bil fel sylfaen ar gyfer setliad cyfansoddiadol llawnach.

Yn cymeradwyo datganiadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gydweithredu yn ystod y broses ddeddfwriaethol i sicrhau'r canlyniad gorau i bobl Cymru.

Yn credu bod y Bil yn cynnig cyfle i sicrhau gwell cydbwysedd i gyfansoddiad Prydain a thrwy hynny gryfhau'r Undeb.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6024** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):

Cyflawni dyfodol ynni craffach i Gymru: Blaenoriaethau polisi ynni ar gyfer Llywodraeth newydd Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 21 Mehefin 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 8 Mehefin, 2016
# i'w hateb ar 15 Mehefin 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr yPleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'rGweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

**1.** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fanteision economaidd prosiectau seilwaith ynni mawr yng Nghymru? OAQ(5)0008(EI)

**2.** Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydgysylltu trafnidiaeth trawsffiniol? OAQ(5)0011(EI)

**3.** Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am welliannau i'r rhwydwaith ffyrdd yn Arfon? OAQ(5)0004(EI)**W**

**4.** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wneud busnesau ar-lein yn ymwybodol o'r rheoliadau dull amgen o ddatrys anghydfod a ddaeth i rym eleni? OAQ(5)0017(EI)

**5.** David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfleoedd a gaiff eu cynnig drwy'r Ardal Fenter ym Mhort Talbot? OAQ(5)0016(EI)

**6.** Hefin David (Caerffili): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth i fusnesau bach yng Nghaerffili? OAQ(5)0019(EI)

**7.** Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Pa fesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno i gefnogi busnesau yng Nghymru yn y Pumed Cynulliad? OAQ(5)0001(EI)

**8.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad i ni am ddatblygu croesiad y Fenai? OAQ(5)0006(EI)**W**

**9.** David Rees (Aberafan): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y cyffyrdd ar hyd yr M4 ym Mhort Talbot? OAQ(5)0015(EI)

**10.** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth ariannol i Bort Talbot? OAQ(5)0002(EI)

**11.** Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0012(EI)

**12.** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i fusnesau bach yng Nghymru? OAQ(5)0009(EI)

**13.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu amserlen fanwl o'r cynlluniau ar gyfer Metro De Cymru? OAQ(5)0018(EI)

**14.** **Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer economi Canol De Cymru yn ystod y Pumed Cynulliad? OAQ(5)0003(EI)

**15.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa ran y gall ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd yng Nghymru ei chwarae yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r economi? OAQ(5)0005(EI)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

**1.** **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rôl y mae Llywodraeth Cymru yn ei gweld ar gyfer chwaraeon o ran helpu i wella iechyd a llesiant pobl Cymru? OAQ(5)0015(HWS)

**2.** **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau i bobl yng Nghymru yn ystod y Pumed Cynulliad, sydd â diabetes? OAQ(5)0002(HWS)

**3.** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am recriwtio a chadw meddygon teulu yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0012(HWS)

**4.** **Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro? OAQ(5)0004(HWS)

**5.** **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fwriad Llywodraeth Cymru i sefydlu cronfa cyffuriau canser? OAQ(5)0013(HWS)

**6.** **Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0006(HWS)

**7.** **Rhianon Passmore (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran cyflawni ei hamcanion o leihau nifer y bobl sy'n smygu yng Nghymru? OAQ(5)0017(HWS)

**8.** **David Rees (Aberafan):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog meddygon teulu i ddod i Gymru? OAQ(5)0014(HWS)

**9.** **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith mesurau arbennig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(5)0001(HWS)

**10.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog ar gyfer gwella mynediad at fferyllwyr cymunedol? OAQ(5)0016(HWS)

**11.** **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniadau Arolwg Iechyd Cymru 2015? OAQ(5)0003(HWS)

**12.** **Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol yng Nghymru? OAQ(5)0011(HWS)

**13.** **Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)** A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal sylfaenol yn ystod tymor y Cynulliad hwn? OAQ(5)0010(HWS)

**14.** **Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd therapi ailhyfforddi tinitws ledled Cymru? OAQ(5)0018(HWS)

**15.** **Sian Gwenllian (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i hyfforddi meddygon newydd yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0008(HWS)**W**